Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru

Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol Cymru

# Cofnodion

# Ion - Med 2022

This document is available in English

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 1PM AR 26 IONAWR 2022 TRWY 'TEAMS'**

**Yn bresennol:** Mrs Debra Evans-Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Miss Carys Vaughan (Swyddog Cymorth Tîm).

**Amser Dechrau: 13:00**
**Amser Gorffen: 14:20**

**Ymddiheuriadau:** Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## 2. Briff y Cadeirydd

2.1. Rhoddwyd briff gan y Cadeirydd i'r Comisiwn ar y cyfarfod cynharach â Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (LlC):

- Trafodwyd y rhaglen Arolygon Etholiadol, a chydnabu'r Gweinidog a'r Cadeirydd y tîm eithriadol sydd ar waith a diolchwyd pawb sy'n cymryd rhan.
- Cytunodd y Gweinidog ag awgrym y Cadeirydd y dylai'r Comisiwn gael mwy o ymreolaeth dros brosesau gweinyddol.
- Canolbwyntiodd y drafodaeth ar gyfathrebu ac addysg, yn enwedig sut i ymgysylltu â'r ddemograffeg iau. Nododd y Cadeirydd fod gan y Comisiwn ar hyn o bryd un aelod staff ar gyfer Cyfathrebu ac Ymgysylltu, ac er cydnabod cyfyngiadau cyllidebol, cynigiodd gyllid ar gyfer aelod staff arall.
- Holodd y Gweinidog a oedd angen cam ychwanegol yn y broses ymgynghori ar gyfer arolygon yn y dyfodol ar ôl derbyn gohebiaeth gan aelodau'r cyhoedd nad oeddent yn ymwybodol o'r arolwg. Pwysleisiodd y Cadeirydd na fyddai cam ychwanegol yn y broses ymgynghori yn lliniaru'r broblem hon a nododd fod angen digon o gyfathrebu ac ymgysylltu drwy gydol yr holl broses arolygu. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid defnyddio adnoddau ar gyfer mwy o

gyfathrebu, gan gynnwys gwefan ryngweithiol â mapiau, mwy o gyhoeddusrwydd a mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol.

- **Cytunwyd** bod angen i'r Comisiwn ailadrodd nad oes angen cam ychwanegol yn y broses arolygu yn ystod sgyrsiau â LlC yn y dyfodol. Dim ond mewn arolygon lle mae newidiadau sylfaenol rhwng y cynigion drafft a'r argymhellion terfynol y byddai'r Comisiwn yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ychwanegol. Byddai hyn yn cael ei gyfyngu i'r cynigion penodol hynny.
- Trafodwyd penodiad ac aelodaeth y Comisiwn. Gofynnodd y Cadeirydd am ddau Gomisiynydd ychwanegol at ddibenion wrth gefn, gan nodi effaith Covid-19 a faint o waith sydd ynghlwm wrth y broses arolygu.
- Gofynnodd y Cadeirydd am ymrwymiad amser pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud gan LlC.
- Cytunodd y Cadeirydd a'r Gweinidog fod nifer gyfyngedig o arolygon dadleuol.
- Dywedodd y Prif Weithredwr fod gohebiaeth wedi dod i law oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghylch yr Arolwg Cymunedol yng Nghoety. **Nodwyd** y bydd y Prif Weithredwr yn ymateb i Swyddog Cofrestru Etholiadol Pen-y-bont ar Ogwr gan nodi mai Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yw'r corff sy'n gwneud Gorchmynion ar y mater hwn gan ei fod yn arolwg o drefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned. Mae'r Comisiwn hefyd yn cytuno â'r trefniadau etholiadol arfaethedig ar gyfer Cymuned Coety.

- **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i ymateb i Swyddog Cofrestru Etholiadol Pen-y-bont ar Ogwr ynghylch yr Arolwg Cymunedol yng Nghoety.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 19 Ionawr 2022 gan y Prif Weithredwr.

4.2. Rhoddwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr am Bwyllgor arbennig y Senedd ar ddiwygio. Rhoddwyd briff technegol gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Polisi a Rhaglenni i'r Pwyllgor ar 12 Ionawr. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am rai opsiynau a ddarparwyd yn adroddiad y Panel Arbenigol, yn

bennaf ar gyfer defnyddio Ffiniau Awdurdodau Lleol ar gyfer creu grwpiau. Mae’r Prif Weithredwr wedi hysbysu’r Pwyllgor y bydd angen iddo benderfynu ar ddeddfwriaeth, amserlenni a Chomisiynwyr. Awgrymwyd y gallai Comisiynwyr CFfDLC ymgymryd â’r rôl hon, ond bydd angen trafod hyn â’r Gweinidog. Mae’r Prif Weithredwr wedi cyfarfod â Lisa James i drafod y diwygiadau a bydd yn cyfarfod â thîm Etholiadau/ Ffiniau’r Senedd yn LIC yr wythnos nesaf. Bydd y Prif Weithredwr a’r Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn cyfarfod â Phwyllgor y Senedd yfory i drafod yr amserlenni ar gyfer yr arolwg a cheir sgyrsiau dros yr wythnosau nesaf ynghylch y diwygiadau. **Nodwyd** oni bai y gwneir newidiadau deddfwriaethol i gylch gwaith y Comisiwn, bydd angen sefydlu Comisiwn Ffiniau Senedd Cymru i gynnal yr arolwg.

## 5. Rhaglen Arolygon Etholiadol 2023

5.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 17 Ionawr 2022 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

5.2. Cyflwynodd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni ddrafft o’r Dogfennau Gwybodaeth ar gyfer y Cynigion Drafft a’r Argymhellion Terfynol. Bydd y Dogfennau Gwybodaeth yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â’r adroddiadau ar y Cynigion Drafft a’r Argymhellion Terfynol ar y wefan a byddant yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am bob cam o’r arolwg. **Cytunwyd** y bydd hyn yn gwneud yr adroddiadau’n haws eu defnyddio.

5.3. **Cytunwyd** y bydd siart lif sy’n dangos y prosesau ymgynghori yn cael ei chynnwys yng nghefn y Dogfennau Gwybodaeth.

5.4. **Cytunwyd** bod y Dogfennau Gwybodaeth drafft yn fan cychwyn da ac y bydd rhagor o fanylion yn cael eu hychwanegu pan fydd y Comisiwn yn penderfynu ar y model arolygu.

5.5. **Nodwyd** na fydd crynodebau o sylwadau yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau ar y Cynigion Drafft a’r Argymhellion Terfynol ar gyfer Arolwg Etholiadol 2023. Bydd sylwadau’n cael eu cyhoeddi ar wefan CFfDLC. **Nodwyd** y bydd hyn yn helpu o ran llwyth gwaith y Swyddogion Arolygon, ac yn gwneud y sylwadau yn llai agored i’w dehongli.

5.6. **Nodwyd** bod CFfDLC yn cynnwys ffactorau ychwanegol ar gyfer amddifadedd yn y broses arolygu, gan y gall hyn helpu creu cydraddoldeb etholiadol mewn ardaloedd difreintiedig.

5.7. **Gweithredu:** Dave Powell i anfon sylwadau ar y Dogfennau Gwybodaeth at y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

## 6. Adroddiad ar Gyllideb 2021-22

6.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 26 Ionawr 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** a **chytunwyd ar** y sefyllfa gyllidebol gyfredol ar gyfer 2021-22.

6.2. **Nododd** a chymeradwyodd yr Aelodau'r trosglwyddiadau arfaethedig rhwng Categorïau'r Gyllideb.

6.3. **Nodwyd** y bydd gan y Comisiwn danwariant amcangyfrifedig ar ddiwedd y flwyddyn o gyllid Cymorth Grant o £82,000, gyda'r Comisiwn yn ildio £60,000 o warged amcangyfrifedig y Cymorth Grant yn ôl i Lywodraeth Cymru. **Nodwyd** y bydd yr union swm yn gliriach yn dilyn cyfarfod nesaf y Comisiwn, gan nad yw costau ar gyfer rhai meysydd gwariant wedi'u pennu'n derfynol hyd yn hyn. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Porth CFfDLC – Mae'r tendr ar gyfer y Porth yn fyw, ond gallai'r gost wirioneddol fod yn llai na'r amcangyfrif.
- Uwchraddio Gwefan CFfDLC – Amcangyfrifir y bydd uwchraddio gwefan CFfDLC wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth a gallai gostio tua £25,000.
- Dyfeisiau Surface Pro newydd – Bydd staff a Chomisiynwyr yn derbyn dyfeisiau Surface Pro newydd erbyn diwedd mis Mawrth, a'r gost amcangyfrifedig yw £36,000.
- Mae'r Comisiwn yn ystyried datblygu gwaith hysbysebu CFfDLC, a'r gost amcangyfrifedig yw £18,000.

6.4. **Nodwyd** y posibilrwydd na fydd Porth CFfDLC wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth. Mae'r Comisiwn yn aros am benderfyniad gan LlC ynghylch a ellir cario'r cyllid i gwrdd â'r gwariant hwn drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf.

6.5. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn ildio £60,000 o'u dyraniad Cymorth Grant ar gyfer 2021-22 yn ôl i Lywodraeth Cymru.

## 7. Rheoli Risg – y Gofrestr Risg

7.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 12 Ionawr 2022 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Nodwyd** bod yr holl newidiadau i'r gofrestr risg y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol wedi'u gweithredu.

7.3. **Cytunwyd** y bydd trafodaeth ynghylch a ddylid ychwanegu Trosiant Staff Allweddol fel Risg Generig yn cael ei chynnal yng nghyfarfod mis Chwefror. **Cytunwyd** y bydd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid yn penderfynu ar eiriad y risg cyn y cyfarfod.

7.4. **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid i benderfynu ar eiriad y risg bosibl, Trosiant Staff, cyn cyfarfod mis Chwefror.

## 8. Adroddiad ar Gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2021

8.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 12 Ionawr 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** y prif eitemau a drafodwyd a'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod.

8.2. **Nodwyd** nad yw'r ohebiaeth ddiweddar ynghylch Arolwg Sir Gaerfyrddin wedi symud ymlaen ymhellach.

## 9. Cylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith Blynyddol CFfDLC

9.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 26 Chwefror 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys.

9.2. Ni wnaeth y Comisiwn unrhyw newidiadau i Gylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith Blynyddol CFfDLC.

## 10. Trefniadau Parhad Busnes Cyfredol (Diweddariad Llafar)

10.1. Adroddodd y Prif Weithredwr y bu staff yn gweithio gartref yn ystod mis Ionawr yn unol â chyfyngiadau LlC a chanllawiau Iechyd y Cyhoedd. Bydd y swyddfa'n ailagor yr wythnos nesaf, a gofynnwyd i staff am eu dewisiadau o ran rota. Bydd 4 i 5 aelod staff yn mynychu'r swyddfa bob diwrnod a bydd staff yn parhau i weithio gartref ar ddydd Gwener. Bydd gwrandawiadau cyhoeddus y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn dechrau ar 17 Chwefror, felly bydd llai o bobl yn y swyddfa yn ystod y cyfnod hwnnw o chwe wythnos.

10.2. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn trafod dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol â'r Cadeirydd a'r Comisiynwyr newydd.

## 11. Calendr Digwyddiadau

11.1. **Nodwyd** y Calendr gan y Comisiwn.

11.2. **Cytunwyd** y bydd Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 28 Chwefror 2022 yn cael ei ychwanegu at y Calendr Digwyddiadau.

11.3. **Gweithredu:** Y Swyddog Cymorth Tîm i ychwanegu Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 28 Chwefror 2022 at y Calendr Digwyddiadau.

## 12. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

12.1. Dywedodd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni wrth y Comisiwn ei fod wedi derbyn yr holl Holiaduron Ôl-arolwg a'i fod wedi casglu'r atebion. Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn ychwanegu'r eitem at yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Chwefror ac yn dosbarthu'r daenlen ag atebion yr holiadur i'r Comisiynwyr a'r Ysgrifenyddiaeth.

12.2. Adroddodd Ceri Stradling fod Cadeirydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Loegr wedi cysylltu ag ef i drafod mater yn ymwneud â llywodraethu. Gofynnodd a fyddai modd anfon yr adroddiad dilynol i adroddiad Mathias ato cyn y drafodaeth ar 31 Ionawr.

12.3. **Gweithredu**: Y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i ychwanegu adroddiad yr Holiadur Ôl-arolwg fel eitem agenda ar gyfer cyfarfod mis Chwefror a dosbarthu'r daenlen ag atebion yr holiadur i'r Comisiynwyr a'r Ysgrifenyddiaeth.

12.4. **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i ddod o hyd i'r adroddiad dilynol i adroddiad Mathias a'i anfon at Ceri Stradling.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 22 Chwefror 2022**

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10AM AR 22 CHWEFROR 2022 TRWY 'TEAMS'**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Miss Carys Vaughan (Swyddog Cymorth Tîm).

**Amser Dechrau: 10:20**
**Amser Gorffen: 11:17**

**Ymddiheuriadau:** Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## 2. Briff y Cadeirydd

2.1. Rhoddwyd briff gan y Cadeirydd i'r Comisiwn ar y cyfarfod cynharach â Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LlC):

- Trafodwyd myfyrdodau ar y broses arolygu a thynnwyd sylw at y cynnydd sylweddol a wnaed gan y Comisiwn ar yr arolygon. Dywedodd Lisa James ei bod yn bryd edrych ar y gwersi a ddysgwyd a sut y gall hyn lywio'r arolwg etholiadol nesaf. **Nodwyd** bod deddfwriaeth wedi'i newid i roi pwerau i'r Comisiwn oedi arolygon os oes angen.
- Nid oedd y pedwerydd ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer swydd Aelod o'r Comisiwn yn gallu derbyn y penodiad. Bydd y swydd yn cael ei ailhysbysebu.
- Gofynnwyd i gyrff a noddir archwilio'r Offeryn Asesu Risg Defnyddiol (HART) newydd. Mynychodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid weithdy ar HART. **Nodwyd** bod gan gyrff cyhoeddus eu prosesau eu hunain sydd wedi'u haddasu'n arbennig ar gyfer y sefydliad ac nad yw'r offeryn yn gymesur â'r gwaith dan sylw oherwydd maint y Comisiwn.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2022

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2022 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 15 Chwefror 2022 gan y Prif Weithredwr.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

4.3. **Adroddodd** y Prif Weithredwr y bydd yn cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod Diwygio'r Senedd ymhellach a bydd yn rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf. **Cytunwyd** bod gan y Comisiwn yr arbenigedd i gynnal yr arolwg, ond bydd angen adnoddau pellach i ysgwyddo'r llwyth gwaith a bydd angen cytundeb ar yr amserlen.

4.4. **(Mater 5)** – Mae'r Prif Weithredwr wedi rhoi diweddariad llafar i'r Comisiynwyr ar yr ymarfer Cymorth Graddio a Gwerthuso Swyddi, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i LlC.

## 5. Canlyniadau'r Holiadur Ôl-arolwg – Rhaglen Arolygon Etholiadol 2017

5.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 27 Ionawr 2022 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni, a nodwyd ei gynnwys.

5.2. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi derbyn ymatebion ar 6 o'r 22 Arolwg Etholiadol. Derbyniodd y Comisiwn 57 ymateb i'w holiadur cynghorau Tref a Chymuned, 12 ymateb i'w holiadur rhanddeiliaid, ac 20 ymateb i'w holiadur aelodau etholedig a swyddogion cynghorau.

5.3. **Nodwyd** yr argymhelliad i'r Comisiwn wella ei gyfathrebu ac ymgysylltu a **chytunwyd** y bydd hyn yn brif ffocws ar gyfer y rhaglen arolygon nesaf.

5.4. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi penodi Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer Arolwg Seneddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru (CFfG), ac y bu'r swydd yn llwyddiant, gyda mwy o ymgysylltiad a sylw yn y wasg ers cyflogi'r Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu. **Cytunodd** y Comisiwn â'r argymhelliad y dylid gwneud y swydd yn un barhaol.

5.5. **Nodwyd** bod hysbysebu targedig ar gyfryngau cymdeithasol wedi arwain at fwy o ymgysylltiad yn ystod yr Ymgynghoriad ar y Cynigion Cychwynnol ar gyfer Arolwg Seneddol y CFfG.

5.6. **Cytunwyd** y dylid drafftio strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer Rhaglen Arolygon Etholiadol 2023 a'i chyflwyno i'r Comisiwn.

5.7. **Nodwyd** bod y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi cyflogi'r cyflenwr creu cynnwys Savage & Gray i weithio ar animeiddiadau ar gyfer CFfDLC. Bydd yr animeiddiadau'n ymdrin â chwestiynau gan gynnwys Beth yw Arolwg Etholiadol a Beth yw cymuned. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi defnyddio'r cyflenwr yn flaenorol i greu animeiddiadau ar gyfer y CFfG.

5.8. **Nododd** y Comisiwn yr argymhelliad iddo symleiddio'r wybodaeth y mae'n ei chyflwyno. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi creu Dogfennau Gwybodaeth ar gyfer y Cynigion Drafft a'r Argymhellion Terfynol, er mwyn gwneud yr adroddiadau ar y Cynigion Drafft a'r Argymhellion Terfynol yn haws eu deall. **Cytunwyd** y dylai'r adroddiadau ar y cynigion roi esboniadau manylach ynghylch pam nad yw'r Comisiwn wedi gweithredu dewisiadau amgen a gyflwynwyd yn ystod y broses ymgynghori.

5.9. **Cytunodd** y Comisiwn â'r argymhelliad bod angen iddo gynyddu faint o adborth y mae'n ei dderbyn ar ei arolygon. **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn ganolbwyntio ar amseriad yr adborth a gellir cynnwys cwestiynau ar y porth er mwyn casglu adborth drwy gydol y broses arolygu.

5.10. **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu i ddrafftio Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu a'i chyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol.

## 6. Adroddiad ar Gyllideb 2021-22

6.1. Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** a **chytunwyd ar** y sefyllfa gyllidebol gyfredol ar gyfer 2021-22.

6.2. **Nododd** a **chymeradwyodd** yr Aelodau'r trosglwyddiadau arfaethedig rhwng Categorïau'r Gyllideb er mwyn mynd i'r afael â gorwariant mewn sawl cyllideb.

6.3. **Nodwyd** bod y Comisiwn yn y cyfarfod diwethaf wedi **cytuno** i ildio £60,000 o'u dyraniad Cymorth Grant ar gyfer 2021-22 yn ôl i Lywodraeth Cymru, ond mae'r swm hwn wedi'i ostwng i £40,000 yn dilyn adolygiad pellach o'r gwariant amcangyfrifedig.

6.4. **Nodwyd** y bydd gan y Comisiwn danwariant amcangyfrifedig ar ddiwedd y flwyddyn, sef £32,000 o gyllid Cymorth Grant, ac ynghyd â thanwariant Swyddfa'r Cabinet, bydd gan y Comisiwn gyfanswm tanwariant cyllidebol o tua £106,700. **Nodwyd** nad yw'r union swm wedi'i bennu'n derfynol oherwydd gwaith parhaus y Comisiwn gyda'r Porth ac uwchraddio gwefan

CFfDLC. **Nodwyd** bod y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn aros am benderfyniad ynghylch a ellir cwblhau uwchraddio'r wefan erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 7. Rheoli Risg – y Gofrestr Risg

7.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 15 Chwefror 2022 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Nodwyd** na wnaed unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risg yn y cyfarfod diwethaf.

7.3. Fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylid ychwanegu Trosiant Staff Allweddol fel Risg Generig at y Gofrestr Risg. Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid risg enghreifftiol, CR6, sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. **Cytunwyd** bod Trosiant Staff Allweddol yn risg gweithredol ac felly ni fydd yn cael ei ychwanegu at y Gofrestr Risg Corfforaethol ac y bydd yn cael ei ychwanegu at y Gofrestr Risg Gweithredol yn lle hynny.

7.4. Roedd yr Aelodau o'r farn nad oedd risg corfforaethol CR3 yn risg i'r Comisiwn bellach ar ôl cwblhau'r Rhaglen Arolygon Etholiadol. **Cytunwyd** y bydd CR3 yn cael ei ddileu oddi ar y Gofrestr Risg.

7.5. Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd risg corfforaethol CR5 yn risg i'r Comisiwn bellach yn dilyn penodi aelodau newydd y Comisiwn yn ddiweddar. **Cytunwyd** y bydd CR5 yn cael ei ddileu oddi ar y Gofrestr Risg.

7.6. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn penderfynu a ddylid dileu CR4 oddi ar y Gofrestr Risg yng nghyfarfod mis Mawrth.

7.7. **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i ddileu CR3 a CR5 oddi ar y Gofrestr Risg.

## 8. Trefniadau Parhad Busnes Cyfredol (Diweddariad Llafar)

8.1. **Adroddodd** y Prif Weithredwr fod LlC wedi cyhoeddi y bydd cyfyngiadau Covid yng Nghymru yn cael eu dileu yn yr wythnosau nesaf. Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi awgrymu rhoi'r gorau i'r system rota staff ar gyfer y swyddfa. Bydd staff yn parhau i weithio gartref ar ddydd Gwener a gofynnwyd iddynt drafod eu dewisiadau ar gyfer gweithio yn y swyddfa gyda'u Rheolwr Llinell.

## 9. Calendr Digwyddiadau

9.1. **Nodwyd** y Calendr gan y Comisiwn.

9.2. **Nodwyd** y dylid newid cyfarfod mis Mawrth CFfDLC i 23 Mawrth ar y Calendr.

9.3. **Gweithredu:** Y Swyddog Cymorth Tîm i newid cyfarfod mis Mawrth CFfDLC i 23 Mawrth.

## 10. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

10.1. **Adroddodd** Ceri Stradling ei fod wedi cyfarfod â Chadeirydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Loegr i drafod yr arolwg o drefniadau llywodraethu. **Cytunwyd** y gall Ceri Stradling rannu arferion CFfDLC â'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Loegr.

10.2. Ar ran y Comisiwn, diolchwyd Ceri Stradling a Dave Powell yn ffurfiol gan y Cadeirydd am eu hymdrechion rhagorol fel Comisiynwyr ac am eu cyfraniad sylweddol i'r Comisiwn. Hefyd, diolchwyd y Cadeirydd ymadawol, Debra Evans-Williams, am ei chyfraniad. Ychwanegodd Ceri Stradling a Dave Powell eu diolchiadau i'r Ysgrifenyddiaeth, gan anfon dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 23 Mawrth 2022**

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10AM AR 23 MAWRTH 2022 TRWY GYFRWNG TEAMS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd); Mr Michael Imperato; Mr David Powell

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Miss Carys Vaughan (Swyddog Cymorth Tîm).

**Amser Dechrau: 10:15**
**Amser Gorffen: 11:00**

**Ymddiheuriadau:** Mr Ceri Stradling

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## 2. Briff y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd friff i'r Comisiwn ar gyfarfod cynharach â Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LlC):

- Mae Llythyr Cylch Gwaith drafft 2022/23 wedi'i dderbyn a bydd yn cael ei gwblhau ar ôl iddo gael ei gytuno.
- Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r gwaith a gwblhawyd gan y Comisiwn a'r proffesiynoldeb a'r diwydrwydd y mae wedi'u dangos mewn amgylchiadau heriol.
- **Cytunwyd** bod gan y Comisiwn sail gadarn ar gyfer adeiladu ar y rhaglen 10 mlynedd nesaf. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd, ar adolygu deddfwriaeth, ac ar gwmpas a swyddogaeth y Comisiwn.
- Crybwyllwyd datblygiad Polisi ac Arferion ac ymchwil ar Faint Cynghorau.
- Trafodwyd ymgysylltiad â'r Gymuned a Rhanddeiliaid, a **nodwyd** bod y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn creu Strategaeth Gyfathrebu a fydd yn cael ei hadolygu mewn cyfarfod y Comisiwn yn y dyfodol.
- Cafwyd trafodaeth ar sut y gallai'r Comisiwn fesur ei gydymffurfedd â deddfwriaeth Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ddiweddarach eleni gyda'r Comisiynwyr newydd.
- Ymrwymodd Lisa James i ddatrys unrhyw broblemau â'r Cytundeb Fframwaith erbyn yr hydref. **Cytunwyd** bod hwn yn gyfle da i

adolygu'r ddogfen a bydd trafodaeth yn cael ei chynnal mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Crybwyllwyd y cynigion ar gyfer cynyddu'r gyllideb yn amodol ar newidiadau eraill h.y. ailstrwythuro. **Cytunwyd** y dylid monitro'r gyllideb yn rheolaidd.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2022

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2022 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 16 Mawrth 2022 gan y Prif Weithredwr.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd diweddar ar y materion canlynol:

4.3. **(Mater 4) –** Mae'r ymafer recriwtio yn parhau ar gyfer y pedwerydd Comisiynydd. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 28 Mawrth 2022, a rhagwelir mai 1 Mehefin 2022 fydd y dyddiad cychwyn.

4.4. **(Mater 5) –** Mae Lisa James wedi gofyn i Achos Busnes ar gyfer yr ailstrwythuro gael ei anfon ati erbyn yr wythnos nesaf. Pan fydd yr Achos Busnes wedi'i gymeradwyo, bydd y swyddi gwag newydd yn cael eu hysbysebu. **Nodwyd** bod ymholiadau'n cael eu gwneud ynghylch y posibilrwydd o aelod staff yn cael secondiad i LIC am 2 flynedd.

4.5. **(Mater 8) – Nodwyd** bod y Comisiwn yn aros am sylwadau gan yr Is-adran Noddi ar Ganllawiau Recriwtio CEX.

4.6. Derbyniodd y Comisiwn lythyr gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch yr ohebiaeth mewn perthynas â chŵyn yn ymwneud ag Arolwg Etholiadol. Mae'r Ombwdsmon wedi cadarnhau na fyddant yn ymchwilio i'r gŵyn.

## 5. Adroddiad ar Gyllideb 2021- 22

5.1. Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** a **chytunwyd** ar y sefyllfa gyllidebol bresennol ar gyfer 2021-22.

5.2. **Nodwyd** bod gan y Comisiwn danwariant sefydlog drwy gydol blwyddyn ariannol 2021-22.

5.3. **Nodwyd** y bydd gan y Comisiwn danwariant diwedd blwyddyn o gyllid Cymorth Grant o £117,000. Roedd y ffigur hwn yn cynnwys y Cymorth Grant o £40,000 a ildiwyd yn ôl i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr.

5.4. Adroddwyd bod y Comisiwn wedi gallu talu hanner y costau ar gyfer cwblhau'r porth arolwg newydd a gwelliannau i'r wefan o ddyraniad Cymorth Grant 2021-22.

## 6. Rheoli Risg – y Gofrestr Risg

6.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 9 Mawrth 2022 gan y Rheolwr Cyllid.

6.2. **Nodwyd** bod yr holl newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf wedi'u hymgorffori yn fersiwn gyfredol y Gofrestr Risg.

6.3. Fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylid tynnu CR4 oddi ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Cytunwyd y dylid cadw CR4 ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol hyd nes y gwneir cyhoeddiad LlC ynghylch cyfyngiadau a mesurau Covid ar 28 Mawrth 2022.

## 7. Cynllun Gwaith y Cylch Gorchwyl

7.1. Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn adolygu Cynllun Gwaith y Cylch Gorchwyl yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd holl aelodau'r bwrdd wedi'u penodi.

7.3. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyllid yn ychwanegu Cynllun Gwaith y Cylch Gorchwyl at yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf.

## 8. Adroddiad Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2022

8.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 9 Mawrth 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** y prif eitemau a drafodwyd a'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod.

8.2. **Nodwyd** bod yr holl asedau wedi'u dilysu ar gyfer yr ymarfer dilysu asedau sefydlog ar gyfer 2021-22.

8.3. **Adroddwyd** y bydd yr Archwilwyr Mewnol yn dyfarnu Gradd Sicrwydd Sylweddol i'r Comisiwn. Croesawodd y Cadeirydd y radd a diolchodd i'r Pwyllgor am ei waith caled.

## 9. Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2021- 22

9.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 7 Mawrth 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys.

9.2. **Nodwyd** y cafodd Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2021-22 ei **gwblhau** a'i **gytuno** yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## 10. Datganiad Llywodraethu Drafft 2021- 22

10.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 7 Mawrth 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** a **chymeradwywyd** ei gynnwys. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau pellach i'r Datganiad Llywodraethu.

10.2. **Nodwyd** bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi adolygu Datganiad Llywodraethu Drafft 2021-22 ac wedi cynnig nifer o newidiadau cyn cymeradwyo'r ddogfen. Hefyd, **nodwyd** bod y ddogfen wedi'i chymeradwyo gan Archwilwyr Mewnol ac Allanol a oedd yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 28 Chwefror.

## 11. Calendr Digwyddiadau

11.1. **Nododd** y Comisiwn y Calendr.

11.2. **Nodwyd** y bydd cyfarfodydd y Comisiwn yn cael eu cynnal bellach ar ddydd Mercher.

11.3. **Cytunwyd** y bydd y Prif Weithredwr yn cysylltu â'r Comisiynydd newydd, Frank Cuthbert, i holi am ei argaeledd ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn y dyfodol.

11.4. **Adroddodd** y Prif Weithredwr mai'r Comisiwn fydd yn cynnal cyfarfod blynyddol y Comisiynau Ffiniau eleni. Cynhelir y cyfarfod wyneb i wyneb gydag opsiwn hybrid ar gael, a disgwylir iddo gael ei gynnal ym mis

Tachwedd/Rhagfyr. Bydd y Prif Weithredwr yn cysylltu ag ysgrifenyddion y Comisiynau Ffiniau eraill er mwyn penderfynu ar yr union ddyddiad.

11.5. **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn cysylltu â Frank Cuthbert i holi am ei argaeledd ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn y dyfodol.

11.6. **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn cysylltu ag ysgrifenyddion y Comisiynau Ffiniau eraill er mwyn penderfynu ar ddyddiad ar gyfer cyfarfod blynyddol y Comisiynau.

## 12. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

12.1. Estynnodd Dave Powell ddiolch i'r Ysgrifenyddiaeth a dymunodd bob lwc i'r Comisiynwyr newydd. Ychwanegodd y Cadeirydd ei diolchiadau a'i ganmol am ei 10 mlynedd o ymroddiad, angerdd ac ymrwymiad i'r Comisiwn.

12.2. **Adroddodd** y Prif Weithredwr ei bod wedi cael cadarnhad y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd y camau cyfreithiol angenrheidiol i alluogi'r Comisiwn i ddechrau'r rhaglen arolygu nesaf ym mis Ebrill 2023.

12.3. Rhoddodd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod nesaf a dywedodd wrth y Comisiwn y bydd Polisi ac Arferion yn eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf at ddibenion gwybodaeth yn unig.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 4 Mai 2022**

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10AM AR 04 MAI 2022 TRWY GYFRWNG TEAMS AC YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd); Mr Michael Imperato; Mr Frank Cuthbert.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr) trwy gyfrwng Teams; Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser Dechrau: 09:57**
**Amser Gorffen: 11.32**

**Ymddiheuriadau:** Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni).

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## 2. Briff y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd friff i'r Comisiwn ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 03 Mai 2022 gyda Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LlC):

- Mae'r gwaith i recriwtio pedwerydd Comisiynydd yn parhau, a bydd ymgeisydd yn cael ei gyfweld ar 05 Mai.
- Mae ffurflenni perfformiad wedi'u dosbarthu gan y Cadeirydd i'r Comisiynwyr eraill a gadarnhaodd eu bod yn fodlon â nhw.
- Bydd y Prif Weithredwr yn cwrdd â Peter McDonald (Dirprwy Gyfarwyddwr Tîm Diwygio'r Senedd) yn ddiweddarach heddiw a bydd Lisa a Peter yn mynychu cyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf i drafod diwygio'r Senedd.
  **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn gwahodd Peter a Lisa yn ffurfiol i gyfarfod mis Gorffennaf.
- Trafodwyd etholiadau ac mae LlC wedi gofyn i'r Comisiwn ddarparu gwybodaeth am etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned yn yr un fformat ag y gwnaeth yn dilyn yr etholiadau blaenorol.
  **Gweithredu:** Bydd y Comisiwn yn paratoi taenlen a'i rhannu â LlC.

2.2. Trafodwyd gwersi a ddysgwyd a **nodwyd** bod Eitem 6 ar yr Agenda yn ymwneud â hyn. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y cyfarfod y trafodwyd hyn â staff a'r Comisiynwyr blaenorol yn ystod y diwrnod cwrdd i ffwrdd yn gynharach eleni.

2.3. **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn dosbarthu'r nodiadau o'r diwrnod cwrdd i ffwrdd.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2022**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2022 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Materion yn Codi**

**4.1.** Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 26 Ebrill 2022 gan y Prif Weithredwr.

**4.2.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd diweddar ar y materion canlynol:

**4.3.** **(Mater 1) –** Mae Cytundeb Fframwaith a ddiweddarwyd wedi'i anfon yn ôl at Lywodraeth Cymru i'w ystyried a rhagwelir y bydd drafft terfynol yn barod erbyn mis Awst.

**4.4.** **(Mater 4) –** Yn dilyn sifftio tri chais, bydd un ymgeisydd yn cael ei gyfweld ar 05 Mai ar gyfer swydd y pedwerydd Comisiynydd. **Nodwyd** y bydd tymor Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn dod i ben ym mis Gorffennaf a **chytunwyd** y dylid cynnig estyniad o ddwy flynedd i'r Aelod Annibynnol presennol.

**4.5.** **(Mater 6)** – Mae gwaith datblygu ar y porth ymgynghori newydd yn mynd yn ei flaen yn dda a dylai fersiwn brawf fod ar gael i'w threialu yn un o gyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol.

**4.6.** **(Mater 7)** – Bydd ymarfer tendro ar gyfer Ymchwil Rhaglen Arolygon Etholiadol 2023 yn cael ei gynnal a bydd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn tri mis.

**4.7.** **(Mater 8)** – Mae'r Comisiwn yn aros am ymateb gan yr Is-adran Noddi ynghylch y Canllawiau Recriwtio Prif Weithredwr.

**5. Canllawiau Arolygon Cymunedol**

**5.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 25 Ebrill 2022 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**5.2.** **Nodwyd**, yn dilyn cyngor cyfreithiol, fod y canllawiau drafft yn wahanol iawn i'r fersiwn ddiwethaf a gyhoeddwyd yn 2017.

**5.3.** **Cytunwyd** y bydd y ddogfen ganllawiau yn cael ei derbyn i'w chyhoeddi yn amodol ar wneud newidiadau i'r ddogfen Hawdd ei Deall.

**5.4.** **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r ddogfen Hawdd ei Deall cyn ei chyhoeddi.

## 6. Polisi ac Arferion Rhaglen Arolygon Etholiadol 2023

**6.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 25 Ebrill 2022 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**6.2.** **Nodwyd** mai fersiwn ddrafft yw'r ddogfen hon, i'w thrafod, ei diweddaru a'i diwygio er mwyn llunio fersiwn derfynol i'w chyhoeddi yng Nghynhadledd CLlLC ym mis Medi. Mae'r prif newidiadau (o fersiynau blaenorol) yn ymwneud â'r broses ymgynghori, Maint Cynghorau ac enwau Cymraeg.

**6.3.** Ystyriwyd yr adroddiad, **cytunwyd** ar y diwygiadau, ac edrychir ar y ddogfen eto yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Mehefin.

**6.4.** **Gweithredu**: Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn cyflwyno'r ddogfen yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

## 7. Cynllun Gweithredol 22/ 23

**7.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 26 Ebrill 2022 gan y Prif Weithredwr.

**7.2.** **Nodwyd** bod y Cynllun Gweithredol yn amlinelliad o'r gwaith y bydd y Comisiwn yn ei wneud dros y 12 mis nesaf ac mae ei amcanion wedi'u seilio ar y rhai yn Llythyr Cylch Gwaith 2022/23 gan Lywodraeth Cymru.

**7.3.** **Cytunwyd** y bydd y Cynllun Gweithredol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ôl derbyn cymeradwyaeth ar gyfer yr ailstrwythuro arfaethedig gan ein His-adran Nawdd.

## 8. Adroddiad Blynyddol y Gymraeg

**8.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 25 Ebrill 2022 gan y Prif Weithredwr.

**8.2.** **Nodwyd** mai hwn yw'r pumed Adroddiad Blynyddol a luniwyd ers i Safonau'r Gymraeg ddod i rym ac mae'n rhoi trosolwg o waith y Comisiwn mewn

perthynas â'r Safonau rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Ar ôl cytuno arno, caiff ei gyfieithu a'i gyhoeddi ar y wefan.

**8.3.** **Cytunwyd** ar yr adroddiad heb unrhyw ddiwygiadau.

## 9. Adroddiad ar Gyllideb 2021-22

**9.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** y sefyllfa diwedd blwyddyn.

**9.2.** **Nodwyd,** ar ddiwedd 2021-22, fod gan CFfDLC danwariant o £116,758, yn bennaf oherwydd nad oedd prosiectau'r porth ymgynghori ac uwchraddio'r wefan wedi'u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, gyda dim ond hanner y costau wedi'i dalu o fewn y flwyddyn. Roedd y cyllid Cymorth Grant yn parhau heb ei wario ar ddiwedd y flwyddyn a chafodd ei adhawlio gan Lywodraeth Cymru. Roedd gan CFfG hefyd danwariant, o £102,513, a adhawliwyd gan Swyddfa'r Cabinet, ac roedd hyn yn bennaf oherwydd goramcangyfrif cost y Gwrandawiadau Cyhoeddus.

## 10. Cyllideb 2022-23

**10.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** y gyllideb newydd ar gyfer 2022-23.

**10.2.** **Nodwyd** bod £598,000 o gyllid Cymorth Grant wedi'i ddyrannu i'r Comisiwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 a dylai'r Comisiwn allu gweithio'n gysurus â hyn. Y gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer CFfG yn ystod 2022-23 yw £565,070 ynghyd â £34,763 a gariwyd drosodd o 2021-22 ond mae £15,000 o'r swm hwn yn debygol o gael ei ildio wedi i'r sefyllfa derfynol ar gyfer 2021-22 ddod yn glir.

**10.3.** Rhoddodd y Rheolwr Cyllid ei sicrhad i'r Comisiwn ei fod yn fodlon â'r gyllideb ar gyfer eleni.

## 11. Rheoli Risg – y Gofrestr Risg

**11.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 21 Ebrill 2022 gan y Rheolwr Cyllid.

**11.2.** Fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylid dileu risg CR4, sy'n ymwneud ag effaith y cyfyngiadau COVID, o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. **Cytunwyd** y dylid cadw risg CR4 am y tro a'i hadolygu eto yn yr haf.

## 12. Adolygiad Polisi: Trafodion Ariannol a Gwrthdaro Buddiannau

**12.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 21 Ebrill 2022 gan y Rheolwr Cyllid.

**12.2.** **Cytunwyd** ar y polisi a ddiweddarwyd, heb unrhyw ddiwygiadau.

**13. Adolygiad Polisi: Adennill Colledion Arian Cyhoeddus**

**13.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 21 Ebrill 2022 gan y Rheolwr Cyllid.

**13.2.** **Cytunwyd** ar y polisi a ddiweddarwyd, heb unrhyw ddiwygiadau.

**Calendr Digwyddiadau**

14.1. **Nododd** y Comisiwn y Calendr.

14.2. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y bydd dydd Mercher yn ddiwrnod addas ar gyfer Cyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol a chytunwyd ar y dyddiadau newydd canlynol – 19 Hydref, 16 Tachwedd a 15 Rhagfyr (Dydd Iau – Bore yn unig). Bydd dyddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael eu cytuno â'r Comisiynwyr yn dilyn y cyfarfod hwn.

14.3. Amlygodd y Prif Weithredwr ddau ddyddiad: Cyfarfod y Comisiynau yng Nghaerdydd ar 25 Tachwedd a phryd y Comisiynau'r noson flaenorol ar 24 Tachwedd.

14.4. **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn diweddaru'r calendr i gynnwys dyddiadau newydd y cyfarfodydd.

**15. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall – Symud Swyddfa**

15.1. Esboniodd y Prif Weithredwr fod y brydles bresennol ar Dŷ Hastings yn dod i ben ym mis Rhagfyr, ac oherwydd problemau â'r adeilad presennol, gwnaed dewis i symud i adeilad arall. Roedd wedi bod mewn cysylltiad â thîm Ystadau Llywodraeth Cymru ac amlinellodd yr opsiynau posibl a oedd yn cynnwys symud i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays. Pwysleisiodd y byddai'n well gan staff aros yng Nghaerdydd gan ei fod yn lleoliad canolog i bawb ac mae'r cysylltiadau trafnidiaeth yn dda.

15.2. **Cytunwyd** y dylai'r chwilio am swyddfa newydd ganolbwyntio ar Gaerdydd ac y dylid cadw annibyniaeth y Comisiwn wrth beidio ag ystyried symud i Barc Cathays.

15.3. **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn drafftio'r achos busnes dros symud swyddfa.

## 16. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall – Sefydlu

16.1. Trafodwyd sefydlu ar gyfer Comisiynwyr a **chytunwyd** y bydd hyn yn digwydd ar ôl penodi'r pedwerydd Comisiynydd.

16.2. **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn trefnu dyddiad ar gyfer sefydlu Comisiynwyr newydd ar y cyd, a fydd yn cynnwys cyfarfod â staff. Bydd y Rheolwr Cyllid yn esbonio'r broses hawlio ar wahân.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 15 Mehefin 2022**

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10.30 AM AR 15 MEHEFIN 2022 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd); Mr Michael Imperato; Mr Frank Cuthbert; Mrs Dianne Bevan.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Pennaeth Busnes); Miss Carys Vaughan (Swyddog Cymorth Tîm).

**Amser Dechrau: 10:32**
**Amser Gorffen: 11:30**

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## 2. Briff y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd friff i'r Comisiwn ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2022 ag Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LlC):

- Cyhoeddodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ei adroddiad ar 30 Mai 2022. Nodwyd y bydd angen i'r Comisiwn greu cynllun prosiect ar gyfer yr Arolwg o Ffiniau'r Senedd a ddylai gynnwys amserlenni, strwythur, a bwrdd ailgyfansoddedig i gyflawni'r gwaith.
- Mae'r Is-adran Noddi wedi rhoi gwybod i'r Comisiwn bod newidiadau'n cael eu cynnig drwy ddeddfwriaeth a fydd yn effeithio ar y Rhaglen Arolygon Etholiadol. Bydd Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref. Trafodwyd rhai o'r newidiadau arfaethedig fel rhan o Wersi a Ddysgwyd. Bydd y Bil Etholiadau yn cael ei gyflwyno yn haf 2023 a disgwylir Cydsyniad Brenhinol yn haf 2024. O ganlyniad, ni fydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei Bolisi ac Arferion ym mis Medi a bydd yn aros i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno cyn cwblhau'r ddogfen derfynol.
- **Cytunodd** y Comisiwn y bydd yn lansio ei Ganllawiau Arolygon Cymunedol ym mis Medi 2022 yn lle ei Bolisi ac Arferion. Bydd y Comisiwn yn gallu pennu safon yr adroddiadau y bydd yn eu derbyn a'r costau ar gyfer yr Arolygon Cymunedol.
- Awgrymwyd y gallai'r Comisiwn gyhoeddi ei Raglen Arolygon Etholiadol ym mis Medi 2023 gan adlewyrchu'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth arfaethedig. Yn y cyfamser, bydd y Comisiwn yn

cynnal nifer fach o Arolygon Cymunedol, a fydd yn helpu i gyfrannu at y Rhaglen Arolygon Etholiadol ac yn rhoi profiad buddiol i staff newydd. Bydd Comisiynwyr yn cymryd rhan mewn Arolygon Cymunedol ac mae darpariaeth ar gyfer Comisiynydd ychwanegol a Chomisiynwyr Cynorthwyol os oes angen.

- Mae Bro Morgannwg wedi mynegi diddordeb mewn cynnal Arolwg Cymunedol.
- Mae'r Cadeirydd wedi'i phenodi i fwrdd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol am 12 mis a bydd yn rhoi gwybod i'r Comisiwn am unrhyw ddiweddariadau.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 04 Mai 2022**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 04 Mai 2022 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Materion yn Codi**

**4.1.** Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 04 Mai 2022 gan y Prif Weithredwr.

**4.2.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd diweddar ar y materion canlynol:

**4.3.** **(Mater 1) –** Mae'r Is-adran Noddi yn LIC wedi rhoi ymateb i'r Cytundeb Fframwaith. **Cytunwyd** y bydd Frank Cuthbert yn edrych ar yr ymateb a bydd y Prif Weithredwr yn gofyn i'r Is-adran Noddi ddiweddaru'r ddogfen â'r newidiadau arfaethedig.

**4.4.** **(Mater 3) –** Mae'r Comisiwn yn diweddaru'r Canllawiau Arolygon Cymunedol ar ôl derbyn sylwadau gan Lywodraeth Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned. Mae LIC wedi awgrymu mân newidiadau gan gynnwys defnyddio amserlen ar gyfer cynnal Arolygon Cymunedol. Mae'r Canllawiau'n cael eu rhannu ag Un Llais Cymru a chydweithwyr yng Nghyngor Sir Fynwy. Pan fyddant wedi'u cwblhau, bydd y Canllawiau'n cael eu dosbarthu i'r Comisiynwyr a'u cyhoeddi.

**4.5.** **(Mater 9) –** Mae 14 o'r 31 argymhelliad o'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd yn effeithio ar y Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn parhau i ymgysylltu â chydweithwyr yn LIC ar weithredu argymhellion, materion polisi a'r broses adolygu. **Cytunwyd** ei bod yn bwysig i'r Comisiwn ystyried a nodi'r holl adnoddau sydd eu hangen i gynnal yr adolygiad. Yn dibynnu ar y strwythur, awgrymwyd y gallai'r Comisiwn ystyried cael Comisiynydd Arweiniol yn ystod y broses adolygu. **Nodwyd** y bydd gan yr

adolygiad gyfnodau ymgynghori o bedair wythnos ac nad oes sôn am wrandawiadau cyhoeddus ar hyn o bryd.

**4.6.** **(Mater 10) –** Mae'r Prif Weithredwr wedi gofyn i'r Pennaeth Busnes nodi swyddfeydd mwy o faint oherwydd y gallai'r Comisiwn ehangu er mwyn cyflawni'r gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Adolygu Ffiniau'r Senedd. Bydd achos busnes yn cael ei greu a'i adolygu mewn cyfarfod y Comisiwn yn y dyfodol.

**4.7.** **Gweithredu:** Bydd Frank Cuthbert yn edrych ar ymateb yr Is-adran Noddi i'r Cytundeb Fframwaith.

**4.8.** **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn gofyn i'r Is-adran Noddi ddiweddaru'r Cytundeb Fframwaith â'u newidiadau arfaethedig.

**4.9.** **Gweithredu:** Bydd y Swyddog Cymorth Tîm yn anfon taenlen ar ganlyniadau etholiadau Llywodraeth Leol y Cynghorau Tref a Chymuned at y Comisiynwyr.

## 5. Cynllun Corfforaethol

**5.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 08 Mehefin 2022 gan y Prif Weithredwr a **nodwyd** a **chytunwyd** ar y cynllun.

**5.2.** **Nodwyd** nad yw'r Cynllun Corfforaethol ar hyn o bryd yn cyfeirio at yr Adolygiad o Ffiniau'r Senedd. **Cytunwyd**, pan fydd y ddeddfwriaeth ar gyfer yr Adolygiad o Ffiniau'r Senedd wedi'i phasio, y bydd y Comisiwn yn adolygu'r Cynllun Corfforaethol.

## 6. Polisi ac Arferion Rhaglen Arolygon Etholiadol 2023

**6.1.** Ni thrafodwyd yr eitem hon gan fod LlC wedi hysbysu'r Comisiwn am newidiadau i ddeddfwriaeth ar Arolygon Etholiadol. Estynnodd y Comisiwn ddiolch i'r Pennaeth Polisi a Rhaglenni am y gwaith a wnaed ganddo a **nododd** y bydd y ddogfen yn cael ei thrafod a'i chwblhau pan fyddai newidiadau i ddeddfwriaeth yn hysbys.

## 7. Cylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith CFfDLC

**7.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 15 Mehefin 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** a **chytunwyd** ar Gylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith CFfDLC.

**7.2.** **Nodwyd** bod Cylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith CFfDLC yn cynnwys eitemau sefydlog cyfredol ac nad ydynt yn cynnwys gwaith y disgwylir i'r Comisiwn ei wneud, h.y., yr Arolwg o Ffiniau'r Senedd.

## 8. Adroddiad ar Gyllideb 2022-23

**8.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 15 Mehefin 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** sefyllfa'r gyllideb hyd at ddiwedd mis Mai 2022.

**8.2.** **Nodwyd**, hyd at ddiwedd mis Mai 2022, mai tanwariant y Comisiwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 oedd £15,674. **Nodwyd** bod hwn yn danwariant rhesymol ar yr adeg hon yn y flwyddyn ariannol.

**8.3.** **Nodwyd** bod yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau bellach wedi cyhoeddi'r Gorchymyn Prynu ar gyfer cyllideb 2022-23 CFfG a bod cais wedi'i wneud am gyllid chwarter cyntaf CFfG.

## 9. Rheoli Risg

**9.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 15 Mehefin 2022 gan y Rheolwr Cyllid.

**9.2.** Fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylid dileu risg CR4, sy'n ymwneud ag effaith y cyfyngiadau COVID, o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Gan fod y risg wedi lleihau'n sylweddol, **cytunwyd** y dylid dileu CR4 o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a'i hychwanegu at y Gofrestr Risg Weithredol.

**9.3.** Gofynnodd Dianne Bevan i ddogfennau ynghylch cwynion, Gwersi a Ddysgwyd ac argymhellion blaenorol nas cymeradwywyd gan LIC gael eu rhannu â hi.

**9.4.** **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyllid yn dileu CR4 o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a'i hychwanegu at y Gofrestr Risg Weithredol.

**9.5.** **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn anfon dogfennau at Dianne Bevan ynghylch cwynion, Gwersi a Ddysgwyd ac argymhellion blaenorol nas cymeradwywyd gan LIC.

## 10. Diweddariad ar Argymhellion Archwilio

**10.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 27 Mai 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys.

**10.2.** **Nodwyd** bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn derbyn yr adroddiad Cynnydd ar Argymhellion Archwilio ym mhob cyfarfod a bod y Comisiwn yn derbyn yr adroddiad yn flynyddol.

**10.3.** **Nodwyd** y bydd y ddau argymhelliad archwilio mewnol nad ydynt wedi'u gweithredu eto yn cael eu gweithredu ddiwedd mis Mehefin 2022.

**10.4.** Nodwyd bod yr argymhelliad o'r archwilio mewnol y dylai'r Comisiwn gynnal cyfres o adolygiadau manwl o risgiau allweddol wedi'i wrthod gan fod cyn-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o'r farn bod y lefel bresennol o graffu ar risgiau yn ddigonol. Roedd yr aelodau o'r farn bod rhywfaint o rinwedd i'r argymhelliad hwn o hyd a **chytunwyd** y dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg allu cynnal adolygiadau manwl o risgiau os ydynt o'r farn bod angen gwneud hynny.

**11. Cyfrifon Blynyddol 2021- 22 – Effaith Safonau Cyfrifo sydd Heb Ddod i Rym Hyd Yma**

**11.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys.

**12. Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2021-22 Drafft**

**12.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Rheolwr Cyllid, a **nodwyd** bod yr adroddiad ar hyn o bryd er gwybodaeth yn unig.

**12.2.** **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi derbyn yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol drafft ar gyfer 2021-22 ddoe a bod y Rheolwr Cyllid wedi cwestiynu rhai eitemau yn yr adroddiad gyda'r cyfrifydd. Bydd fersiwn ddiwygiedig o'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol drafft yn cael ei rhoi ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf.

**12.3.** **Nodwyd** y bydd yr archwiliad yn dechrau'r wythnos nesaf.

**12.4.** **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyllid yn ychwanegu Cyfrifon Blynyddol Drafft 2021-22 at yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf.

**13. Adolygiad Polisi: Polisi Defnydd Derbyniol o Dechnoleg Gwybodaeth (TG)**

**13.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 15 Mehefin 2022 gan y Pennaeth Busnes a **nodwyd** y dogfennau Polisi Defnydd Derbyniol o TG gan y Comisiwn.

**13.2.** **Nodwyd** bod mynediad at gyfrifon e-bost personol o ddyfeisiau gwaith wedi'i gyfyngu oherwydd y risgiau diogelwch uwch sy'n gysylltiedig ag ymosodiad Rwsia ar Wcráin. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn ddiweddarach os bydd yr amgylchedd risg yn newid.

**13.3.** **Nodwyd** bod y Comisiwn yn aros am fysellfyrddau ar gyfer y Surface Pro's newydd. Bydd y Surface Pro's newydd yn cael eu dosbarthu fesul cam a bydd

hyn yn digwydd yn nes at ddiwedd y flwyddyn. Bydd gan y peiriannau newydd Windows 11 a bydd sesiwn hyfforddiant yn cael ei threfnu ar gyfer Comisiynwyr.

## 14. Calendr Digwyddiadau

**14.1.** **Nododd** y Comisiwn y Calendr.

**14.2.** **Cytunwyd** y bydd cyfarfod y Comisiwn ar 14 Gorffennaf yn dechrau am 9.30am a chynhelir Rhaglen Sefydlu'r Comisiynwyr ar ôl y cyfarfod.

**14.3.** **Nodwyd** y bydd Lisa James a Peter McDonald yn mynychu cyfarfod y Comisiwn ar 14 Gorffennaf.

**14.4.** **Cytunwyd** y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn dechrau am 9.30am ar 25 Gorffennaf. Mae gan aelodau'r opsiwn i ymuno â'r cyfarfod yn Nhŷ Hastings neu drwy gyfrwng Teams.

**14.5.** **Gweithredu:** Bydd y Swyddog Cymorth Tîm yn ychwanegu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 25 Gorffennaf at y Calendr.

## 15. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

**15.1.** **Cytunwyd** y bydd Michael Imperato yn gweithredu fel Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac fel Is-gadeirydd y Comisiwn.

**15.2.** **Cytunwyd** y bydd Dianne Bevan a Frank Cuthbert yn ymuno â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

**15.3.** **Cytunwyd** y bydd Frank Cuthbert yn gweithredu fel Hyrwyddwr TG ar gyfer y Comisiwn.

**15.4.** Er mwyn galluogi parhad yn y ffordd y caiff y Comisiwn ei lywodraethu, **cytunwyd** y bydd Julie James yn cael cynnig estyniad o 12 mis ar ei phenodiad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

**15.5.** **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn cysylltu â Julie James a chynnig estyniad o 12 mis iddi ar ei phenodiad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 14 Gorffennaf 2022**

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 9.30 AM AR 14 GORFFENNAF 2022 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd); Mr Michael Imperato; Mr Frank Cuthbert; Mrs Dianne Bevan.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Pennaeth Busnes); Miss Carys Vaughan (Swyddog Arolygon).

**Mynychwyr allanol:** Ms Lisa James (Llywodraeth Cymru); Peter McDonald (Llywodraeth Cymru)

**Amser Dechrau: 09:30**
**Amser Gorffen: 11:08**

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd Peter McDonald a Lisa James o Lywodraeth Cymru (LIC). Rhoddwyd cyflwyniadau ar eu rolau a'u cyfrifoldebau gan aelodau'r Comisiwn, yr Ysgrifenyddiaeth a'n cydweithwyr Peter McDonald a Lisa James.

1.2. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## 2. Briff y Cadeirydd

2.1. Derbyniodd y Comisiwn friff gan Peter McDonald a oedd yn cynnwys crynodeb o'r Diwygio Etholiadol arfaethedig ar gyfer y Senedd, rhagolwg o'r flwyddyn i ddod, a sut mae swyddogion LIC yn bwriadu ymgysylltu â'r Comisiwn wrth ddrafftio'r Bil.

2.2. **Cytunwyd** y dylid ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r diwygio, gan gynnwys defnyddio cylch adborth ar gyfer unrhyw heriau a chostau posibl.

2.3. **Nodwyd** na fydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ystyried cynrychiolaethau a dderbyniwyd ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn ystod Arolwg Seneddol 2023.

2.4. Cafodd y Comisiwn friff gan Lisa James ar y cynigion yn ymwneud â Bil Gweinyddu Etholiadol posibl.

2.5. **Nodwyd** ei bod yn bwysig ystyried sut y bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio ar y Comisiwn ac y bydd y Comisiwn yn cael rhagor o fanylion am y ddeddfwriaeth arfaethedig yn y misoedd nesaf.

2.6. Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i Peter McDonald a Lisa James am eu hamser. Ychwanegodd Peter McDonald a Lisa James eu diolch i'r Comisiwn, gan ddiolch i'r Prif Weithredwr yn arbennig am ei chymorth dros y misoedd diwethaf.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn Codi

**4.1.** Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 04 Mai 2022 gan y Prif Weithredwr.

**4.2.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd diweddar ar y materion canlynol:

**4.3.** **(Mater 5) –** Cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer y rôl Swyddog Arolygon a bydd y Comisiwn yn cynnig y swydd i un ymgeisydd. Bydd cyfweliadau ar gyfer y Rôl Cymorth Tîm yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnosau nesaf. Nid oedd y ddau ymgeisydd am y swydd Rheolwr Arolygon yn addas a bydd y swydd yn cael ei hailhysbysebu. Mae tanwariant oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn talu am gost aelod staff sydd ar secondiad ar hyn o bryd. Defnyddir y tanwariant i recriwtio Swyddog Gweithredol Uwch dros dro am 12 i 18 mis i gynorthwyo'r Pennaeth Busnes i ddiweddaru polisïau'r Comisiwn, paratoi ar gyfer symud swyddfa a throsglwyddo i'r Comisiwn newydd.

**4.4.** **(Mater 10) –** Mae Avison Young yn paratoi dogfen i'w chyflwyno i'r Comisiwn ar yr opsiynau posibl ar gyfer swyddfa. Bydd hyn yn cael ei drafod yn fanwl â'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Busnes yn ystod yr wythnosau nesaf.

**4.5.** Fel y soniwyd yn y cyfarfod diwethaf, mae Bro Morgannwg wedi mynegi diddordeb mewn cynnal Arolwg Cymunedol. Mae'r Comisiwn wedi ymchwilio i gostau ac wedi amcangyfrif rhwng £13,000 a £14,000 i'r Comisiwn gyflawni'r gwaith. Bydd costau ychwanegol ar gyfer cyfieithu ac argraffu a godir ar y cyngor yn ôl y gost. Mae'r Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi creu pecynnau a chostau ar lefelau gwahanol o hysbysebu ar gyfer yr arolwg. Amcangyfrifir y bydd yr arolwg yn cymryd tua 18 mis a rhagwelir y bydd y

dyddiad cychwyn yn gynnar y flwyddyn nesaf. Mae'r Comisiwn yn bwriadu defnyddio'r arolwg fel peilot ar gyfer Arolygon Cymunedol eraill.

## 5. Adroddiad ar Gyllideb 2022-23

**5.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** a **chymeradwywyd** sefyllfa'r gyllideb hyd at ddiwedd mis Mehefin 2022.

**5.2.** **Nododd** a **chymeradwyodd** yr Aelodau drosglwyddiad o £450 o'r Categori Ffioedd Aelodau yn y Gyllideb i'r Categori Cyllideb Cyhoeddiadau er mwyn mynd i'r afael â gorwariant.

**5.3.** **Nodwyd**, hyd at ddiwedd mis Mehefin 2022, mai tanwariant y Comisiwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 oedd £21,647. Awgrymwyd y gellid defnyddio'r tanwariant mewn modd adeiladol ar gyfer Profion Defnyddwyr a Phrofion Hacio ar y Porth Ymgynghori sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

## 6. Rheoli Risg

**6.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 27 Mehefin 2022 gan y Rheolwr Cyllid.

**6.2.** Gofynnodd y Cadeirydd am ystyried Risg Gorfforaethol newydd bosibl yn gysylltiedig ag ad-drefnu'r Comisiwn a gwaith cysylltiedig sydd i'w wneud. **Cytunwyd** y bydd y risg bosibl hon yn cael ei chodi a'i thrafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 25 Gorffennaf.

**6.3.** **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyllid yn trafod risgiau Corfforaethol posibl sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu'r Comisiwn yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 25 Gorffennaf.

## 7. Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2021-22 Drafft CFfDLC

**7.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Rheolwr Cyllid a **nododd** y Comisiwn y cyfrifon drafft heb eu harchwilio.

**7.2.** Rhoddodd y Rheolwr Cyllid grynodeb byr o'r prif bwyntiau i'w nodi yn y cyfrifon drafft gan gynnwys yr amrywiadau mewn Gwariant Gweithredu o 2021 i 2022. **Nodwyd** bod yr archwiliad wedi'i gwblhau ers hynny a bod y Comisiwn wedi derbyn adborth da gyda dim ond mân newidiadau i'r cyfrifon drafft a wnaed gan yr archwilwyr.

**7.3.** Bydd yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol terfynol archwiliedig yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei gyfarfod ar 25

Gorffennaf 2022 a'u cymeradwyo ar gyfer tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**7.4.** Roedd Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2021-22 gyda chyfieithwyr ar hyn o bryd a'r gobaith oedd y bydd fersiwn Gymraeg yn cael ei gosod gerbron y Senedd gan Archwilio Cymru os derbynnir y cyfieithiad mewn da bryd.

**8. Datganiad Polisi Tâl 2021- 22**

**8.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 27 Mehefin 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** a **chymeradwywyd** Datganiad Polisi Tâl 2021-22.

**8.2.** **Nodwyd** bod Datganiadau Polisi Tâl Blynyddol yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn gan gyrff cyhoeddus er mwyn hyrwyddo tryloywder a hygyrchedd wrth gyhoeddi gwybodaeth benodol yn ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol eu staff uwch.

**8.3.** **Nodwyd** nad yw'n ofynnol i'r Comisiwn wneud cyfrifiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau gan nad oes ganddo ddigon o staff i gyrraedd y trothwy.

**9. Diweddariad TGCh**

**9.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Pennaeth Busnes a thrafodwyd a **chytunwyd** ar y Diweddariad TGCh.

**10. Calendr Digwyddiadau**

**10.1.** **Nododd** y Comisiwn y Calendr.

**10.2.** Nodwyd bod CLILC wedi gohirio ei chynhadledd ym mis Medi 2022 a'i bod ar hyn o bryd yn chwilio am ddyddiad arall ym mis Tachwedd 2022. Bydd y Prif Weithredwr yn rhoi gwybod i'r Comisiwn pan fydd dyddiad newydd wedi'i gadarnhau.

**10.3.** **Nodwyd** y bydd y Cadeirydd yn ymuno â chyfarfod y Comisiwn ar 15 Medi trwy gyfrwng Microsoft Teams.

**10.4.** **Nodwyd** y bydd Dianne Bevan yn ymuno â chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 25 Gorffennaf trwy gyfrwng Microsoft Teams.

**10.5.** **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn rhoi gwybod i'r Comisiwn am ddyddiad newydd Cynhadledd CLILC pan fydd wedi'i gadarnhau.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 15 Medi 2022**

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10 AM AR 15 MEDI 2022 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd); Mr Michael Imperato; Mr Frank Cuthbert; Mrs Dianne Bevan.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Miss Carys Vaughan (Swyddog Arolygon).

**Amser Dechrau: 10:28**
**Amser Gorffen: 11:20**

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## 2. Briff y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd friff i'r Comisiwn ar gyfarfod cynharach â Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LlC):

- Bydd Deddfwriaeth Diwygio Etholiadol yn cael ei chyflwyno ym mis Hydref 2023 a bydd y Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi ar 11 Hydref 2022.
- Bydd Lisa James yn gwirio a ellir rhannu'r Papur Gwyn â'r Comisiwn cyn iddo gael ei gyhoeddi. **Cytunwyd** y byddai'n ddefnyddiol i'r Comisiwn weld y papur cyn y cyfarfod â'r Gweinidog ar 6 Hydref.
- Bydd cyfnod ymgynghori o 3 mis yn dilyn cyhoeddiad y Papur Gwyn. Bydd digwyddiad ymgynghori ar-lein yn cael ei drefnu ar y cyd gan LlC a'r Comisiwn i dargedu Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd, CLlLC ac Un Llais Cymru. Bydd y Papur Gwyn yn cael ei rannu a bydd y goblygiadau ynghylch gwaith y Comisiwn yn cael eu trafod. **Nodwyd** y gallai hyn helpu i lywio ymateb y Comisiwn i'r ymgynghoriad.
- Bydd y Papur Gwyn yn cynnwys cyfeiriad at ailenwi Pwyllgor Archwilio CFfDLC oherwydd y bydd yn ymgymryd â'r gwaith sy'n ymwneud â Diwygio'r Senedd. Bydd cyfle i adolygu swyddogaeth y Pwyllgor a sicrhau bod ganddo'r adnoddau priodol.
- Bydd Bil Diwygio'r Senedd yn cael ei gyflwyno tua mis cyn y Bil Diwygio Etholiadol yn 2023. Bydd Bil Diwygio'r Senedd yn nodi'r broses ar gyfer adolygiadau yn 2026 a 2031. Bydd y Bil yn cynnwys

cyfeiriad at ailenwi CFfDLC oherwydd y bydd y Comisiwn yn ymgymryd â gwaith Diwygio'r Senedd.

- Mae'r Gweinidog wedi trefnu digwyddiad o'r enw Amrywiaeth a Democratiaeth, a gynhelir yng Ngogledd a De Cymru, ym mis Rhagfyr. Bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar ddau brosiect ymchwil. Mae un ohonynt yn seiliedig ar arolwg ymhlith Prif Gynghorwyr a Chynghorwyr Cymuned ar ddiwedd eu tymor diwethaf. Mae'r llall yn ymwneud â theori newid, a fydd yn cynnwys rhwystrau rhag cymryd rhan, ymgeisio am swydd etholedig, a chyfres o weithdai. Bydd y digwyddiad yn gyfle i edrych ar y cyd ar sut i ddileu rhwystrau a sut y gallai hyn effeithio ar gynnydd mewn cyfranogiad. Bydd cydnabyddiaeth ariannol Cynghorwyr, sut i gefnogi pobl ag anableddau, a ph'un a oes posibilrwydd o ehangu mynediad i'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig, yn cael eu trafod hefyd. Bydd y Cadeirydd yn anfon unrhyw wybodaeth bellach at y Comisiwn.
- Bydd y Cadeirydd yn mynychu dau gyfarfod Gweinidogol. Bydd y cyntaf yn gyfarfod rhagarweiniol a gynhelir ar 20 Medi a'r ail yn ymwneud â'r ehangu arfaethedig ar gylch gwaith y Comisiwn. Bydd y Prif Weithredwr a Chadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol hefyd yn bresennol ar gyfer yr ail gyfarfod.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Materion yn Codi**

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd diweddar ar y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 2) –** Mae'r Comisiwn wedi cytuno i gynnal Arolwg Cymunedol ym Mro Morgannwg. Bydd yr arolwg yn dechrau ym mis Ionawr 2023. Ar hyn o bryd, mae Bro Morgannwg yn gweithio ar ei bolisi maint y cyngor, ac ar ôl i hwn gael ei gadarnhau, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei Gylch Gorchwyl. Mae'r Comisiwn yn aros i glywed yn ôl gan Gaerffili ac mae Caerdydd wedi cysylltu hefyd ynghylch cynnal Arolygon Cymunedol. Gan y bydd y Comisiwn o bosibl yn ymgymryd â gwaith Diwygio'r Senedd yn 2024, bydd y Prif Weithredwr yn rhoi gwybod i Gaerdydd y gellir cynnal Arolwg Cymunedol dim ond os yw'n dechrau yn 2023. Mae Cyngor Ceredigion wedi cysylltu ag ymholiad ynghylch creu cyngor cymuned ar gyfer ardal ward gymunedol. Bydd y Prif Weithredwr yn ymateb ac yn esbonio bod arolygon cymunedol yn cael eu defnyddio i ystyried ffiniau priodol ar gyfer cymunedau'r prif gyngor.

**4.3.** **(Mater 6) –** Yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod diwethaf ac yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, mae'r Tîm Rheoli wedi drafftio cofrestr risg newydd i adlewyrchu'r Rhaglen Waith Bosibl yn y Dyfodol yn ymwneud â Diwygio'r Senedd a chylch gwaith ehangach y Comisiwn. Mae pum risg wedi'u nodi hyd yn hyn a bydd y gofrestr yn cael ei datblygu ymhellach ar ôl cyhoeddiad y Papur Gwyn.

**4.4.** **(Mater 7) –** Mae Avison Young wedi derbyn rhestr fer o bedwar safle posibl ac mae'r Comisiwn yn aros am wybodaeth am gostau ychwanegol gan y Landlordiaid. Bydd y Prif Weithredwr yn gofyn i'r Pennaeth Busnes gysylltu ag Avison Young am ddiweddariad a bydd yn dod â'r wybodaeth i gyfarfod nesaf y Comisiwn.

**4.5.** **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn gofyn i'r Pennaeth Busnes gysylltu ag Avison Young am ddiweddariad ar gostau'r pedwar safle posibl.

**4.6.** **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn rhoi gwybod i Gaerdydd y gellir cynnal Arolwg Cymunedol dim ond os yw'n dechrau yn 2023.

**4.7.** **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn ymateb i Geredigion gan esbonio bod arolygon cymunedol yn cael eu defnyddio i ystyried ffiniau priodol ar gyfer cymunedau'r prif gyngor.

**5. Monitro'r Gyllideb**

**5.1.** Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 15 Medi 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** a **chymeradwywyd** sefyllfa'r gyllideb hyd at ddiwedd mis Awst 2022.

**5.2.** **Nodwyd** a **chymeradwywyd** y newidiadau canlynol i gategorïau'r gyllideb gan yr Aelodau er mwyn mynd i'r afael â rhywfaint o orwariant amcangyfrifedig.

- Cynnydd o £100 yn yr Arian Mân o £30 i £130.
- Cynnydd o £1,200 ar gyfer lletygarwch o £590 i £1,790.
- Gostyngiad o £1,200 mewn Costau Staff a Gyflogir yn Uniongyrchol o £228,249 i £227,049.
- Gostyngiad o £100 ym Mlwydd-daliadau Cyflogwyr o £51,651 i £51,551.

**5.3.** **Nodwyd** mai swm tanwariant presennol y Comisiwn ar gyfer gwariant arian parod yw £53,960. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod staff ychwanegol yn cael eu recriwtio'n hwyrach na'r bwriad a'r oedi cyn i Lywodraeth Cymru gytuno ar y strwythur staff newydd. Bydd tanwariant o £12,692 mewn Cynnal a Chadw/Prydlesu TGCh yn cael ei ganslo i raddau helaeth gan anfoneb

arfaethedig o £10,000 ar gyfer porth arolygon CFfG. Mae'r Pennaeth Polisi a Rhaglenni a'r Pennaeth Busnes yn edrych ar hyn o bryd ar welliannau y gellir eu gwneud i borth arolygon CFfDLC sy'n costio tua £30,000, a fyddai'n cymryd rhywfaint o'r tanwariant presennol.

## 6. Rheoli Risg

**6.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 15 Mehefin 2022 gan y Rheolwr Cyllid.

**6.2.** **Nodwyd** nad oedd unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn y cyfarfod diwethaf.

**6.3.** **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn adolygu Cofrestr Risg y Rhaglen Waith Bosibl yn y Dyfodol ar ôl i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi.

**6.4.** **Gweithredu:** Bydd y Comisiwn yn adolygu Cofrestr Risg y Rhaglen Waith Bosibl yn y Dyfodol ar ôl i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi.

## 7. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2022

**7.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 24 Awst 2022 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** y prif eitemau a drafodwyd a'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod.

**7.2.** Cynigiodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y dylai CFfDLC ystyried a ddylai Cadeirydd CFfDLC fod yn Hyrwyddwr Chwythu'r Chwiban yn hytrach na Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. **Cytunodd** y Comisiwn y byddai Cadeirydd CFfDLC yn fwy priodol a **chytunodd** Cadeirydd CFfDLC i ymgymryd â'r rôl.

**7.3.** Cynigiodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y dylid trafod eitem drafodol ym mhob cyfarfod. **Cytunodd** y Comisiwn y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg drafod eitemau trafodol sy'n berthnasol i raglen waith y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai Michael Imperato a'r Rheolwr Cyllid yn trafod ac yn penderfynu ar eitemau trafodol ar gyfer agenda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg cyn cyfarfodydd yn y dyfodol. Awgrymwyd y gallai'r Papur Gwyn fod yn eitem drafodol ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Chwefror.

**7.4.** **Nodwyd** bod y Prif Weithredwr yn gweithio ar y fanyleb ar gyfer y rhaglen ymchwil annibynnol ac y bydd yn ei hanfon at Frank Cuthbert ar ôl ei chwblhau.

**7.5.** Diolchodd y Prif Weithredwr y Rheolwr Cyllid am drefnu i Archwilio Cymru osod y cyfrifon archwiliedig gerbron y Senedd yn ddwyieithog am y tro cyntaf.

## 8. Arolygon Cymunedol – Cylch Gorchwyl

**8.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 31 Awst 2022 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**8.2.** Roedd y Comisiwn wedi bwriadu lansio ei Ganllawiau Arolygon Cymunedol wedi'u ddiweddaru ar 22 Medi 2022 ar y cyd â chyfarfod Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol. Fodd bynnag, oherwydd y cyfnod galaru, ni fydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r canllawiau yn gyhoeddus yr wythnos nesaf. Bydd y Comisiwn yn parhau i fynychu digwyddiad Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a bydd yn cyflwyno sesiwn Holi ac Ateb ar y canllawiau i aelodau'r Gymdeithas. Bydd y canllawiau'n cael eu hysbysebu a'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn yr wythnos ganlynol. Fel rhan o'r canllawiau, mae'r Comisiwn wedi awgrymu cyhoeddi Cylch Gorchwyl wrth gynnal arolygon. Mae'r Cylch Gorchwyl wedi'i rannu â Bro Morgannwg ac mae'r Comisiwn wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol gan gynnwys polisi maint y cyngor, cyn i'r ddogfen gael ei chyhoeddi cyn dechrau Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg ym mis Ionawr 2023.

**8.3.** Trafodwyd capasiti a gofynion o ran gwaith, a **nodwyd** bod y Comisiwn yn gallu cynnal tri Arolwg Cymunedol yn 2023. Fel rhan o'r cyflwyniad i Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, mae'r Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi datgan mai capasiti cyfyngedig sydd gan y Comisiwn i gyflawni Arolygon Cymunedol ac y dylai Prif Gynghorau sydd â diddordeb gysylltu cyn gynted â phosibl. Pan fydd y manylion wedi'u cadarnhau ar gyfer Arolygon Cymunedol, gofynnir i Gomisiynwyr am eu dewisiadau o ran gwaith.

**8.4.** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn rhannu cyfarwyddiadau desg yr Arolygon Cymunedol a'r templed penderfyniad â'r Comisiynwyr. **Cytunwyd** y bydd hyn yn fuddiol er mwyn cael cysondeb cyffredinol a bydd yn helpu'r Comisiwn i gadw cofnod o'r broses o wneud penderfyniadau. **Cytunwyd** y bydd gweithdy'n cael ei drefnu ar gyfer dechrau'r flwyddyn nesaf i drafod y broses arolygon.

**8.5.** **Gweithredu:** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn anfon cyfarwyddiadau desg yr Arolygon Cymunedol a thempled penderfyniad at y Comisiynwyr.

**8.6.** **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn trefnu gweithdy ar gyfer dechrau'r flwyddyn nesaf i'r Comisiynwyr drafod y broses arolygon.

## 9. Calendr Digwyddiadau

**9.1.** **Nododd** y Comisiwn y Calendr.

**9.2.** Mae trefniadau ar gyfer cyfarfod y Comisiynau wedi'u gwneud ar gyfer mis Tachwedd a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn nes at y dyddiad. Cynhelir cinio anffurfiol ar gyfer Comisiynwyr a staff y noson cyn y cyfarfod. Bydd y cyfarfod mewn dwy ran, â siaradwr gwadd yn y rhan gyntaf a'r ail ran yn rhoi diweddariad gan bob Comisiwn. Bydd y Prif Weithredwr yn gofyn i Richard Wyn Jones fod yn siaradwr gwadd yng nghyfarfod y Comisiynau.

**9.3.** **Nodwyd** bod croeso i Gomisiynwyr fynychu cynhadledd CLILC a bydd y Prif Weithredwr yn rhoi gwybod i'r Comisiwn pan fydd dyddiad newydd wedi'i gadarnhau. Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno'r Canllawiau Arolygon Cymunedol ac yn rhoi mewnbwn gan y Comisiwn mewn perthynas â'r Papur Gwyn yn y gynhadledd.

**9.4.** **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn ychwanegu'r Papur Gwyn fel eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**9.5.** **Gweithredu:** Bydd y Prif Weithredwr yn gofyn i Richard Wyn Jones fod yn siaradwr gwadd yng nghyfarfod y Comisiynau.

## 10. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

**10.1.** **Nodwyd** y bydd CFfG yn cyhoeddi ei Gynigion Diwygiedig ar 19 Hydref 2022. Gan y cynhelir cyfarfod nesaf CFfDLC ar yr un dyddiad, dywedodd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Polisi a Rhaglenni wrth y Comisiwn ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid iddynt adael yn ystod y cyfarfod er mwyn siarad â'r wasg.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 19 Hydref 2022**

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Local Democracy and Boundary Commission For Wales

Croesawa'r Comisiwn gohebiaeth, e-byst, a galwadau ffôn yn y Gymraeg ac yn Saesneg.
Cysylltwch gyda'r Comisiwn:

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Ffôn: +44 (0)29 20464819
Ffôn: +44 (0)29 21055521
E-bost: ymholiadau@ffiniau.cymru

©Hawlfraint CFfDLC 2022